



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Gwasanaethau Ymosodiad  
Rhywiol Cymru (GYRC)  
Welsh Sexual Assault  
Services (WSAS)

# CYLCHLYTHYR

HYDREF 2022

RHIFYN 1



*'Sicrhau'r canlyniadau gorau i holl ddioddefwyr trais rhywiol drwy ddarparu gwasanaethau ymosodiadau rhywiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac ar iechyd a lles yng Nghymru'*

## **CROESO** gan **Joanna Williams** Cyfarwyddwr Rhaglen Gwasanaethau Ymosodiadau Rhywiol Cymru

Croeso i gylchlythyr cyntaf Rhaglen Gwasanaeth Ymosodiadau Rhywiol Cymru (GYRC). Yn y rhifyn cyntaf hwn rydym wedi rhoi trosolwg o'r rhaglen a'i gweithgareddau presennol. Mewn cylchlythyrau yn y dyfodol, bydd gennym nodweddion ar feysydd gwaith penodol a chyfraniadau gan bartneriaid sy'n gweithio ar draws y rhaglen.

Mae'r rhaglen GYRC yn gydweithrediad rhwng byrddau iechyd, heddluoedd, comisiynwyr heddlu a throseddau, a'r trydydd sector i ddarparu model gwasanaeth newydd ar gyfer gwasanaethau atgyfeirio ymosodiadau rhywiol ledled Cymru.

Bydd y datblygiad hwn yn darparu gwasanaeth mwy integredig sy'n cael ei yrru gan anghenion dioddefwyr a chleifion ac sy'n cefnogi darparu gwasanaethau sy'n bodloni safonau a chanllawiau clinigol, ffforensig, ansawdd a diogelwch, ac yn sicrhau trefniadau llywodraethu cadarn.

Ein huchelgais yw darparu gwasanaeth ymosodiadau rhywiol sy'n canolbwyntio ar y claf a'r dioddefwr gydag anghenion iechyd yn flaenoriaeth allweddol, gan gyflawni'r canlyniadau gorau i ddioddefwyr trais rhywiol trwy raglen a arweinir gan iechyd, gyda'r GIG yn gweithio mewn partneriaeth â phlisma ac eraill.

Hoffwn ddiolch i bawb sy'n gweithio gyda ni ar gyflawni'r rhaglen. Rydym am i'r rhaglen gynnwys pawb sydd â diddordeb mewn gwella gwasanaethau ymosodiadau rhywiol ledled Cymru.

Mae'r tîm a minnau'n edrych ymlaen at gwrdd ag a gweithio gyda llawer mwy ohonoch yn y misoedd nesaf. Os oes unrhyw beth yr hoffech ei ofyn neu ei weld yn cael ei gynnwys mewn cylchlythyrau yn y dyfodol, rhowch wybod i ni.

# GYRC RHAGLEN TROSOLWGW

## ●●● Model newydd ar gyfer canolfannau atgyfeirio ymosodiadau rhywiol ar draws rhanbarth De Cymru

Mae'r Rhaglen GYRC yn gweithredu model 'prif ganolfan a lloerennau' newydd o ganolfannau atgyfeirio ymosodiadau rhywiol (SARCs) ar draws de-ddwyrain, gorllewin a chanolbarth Cymru. Cytunwyd ar y model hwn yn 2019 yn dilyn gwaith datblygu gydag iechyd, yr heddlu, y trydydd sector, dioddefwyr, a goroeswyr.

Er ei bod yn cael ei harwain gan iechyd, mae'r Rhaglen GYRC yn gydweithrediad â phlisma (heddluoedd rhanbarthol a chomisiynwyr heddlu a throsedd) a mudiadau trydydd sector eraill, gan gynnwys Llwybrau Newydd.

## Pam ydym ni'n gwneud hyn ?

Roedd y 'Cynnig ar gyfer Model Canolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol Ranbarthol ar gyfer De, Canolbarth a Gorllewin Cymru' (2019) yn benllanw gwaith a ddechreuodd yn 2013 mewn ymateb i adolygiad gan Lywodraeth Cymru.

O ganlyniad i hyn, gwnaed gwaith sylweddol mewn partneriaeth ag asiantaethau lluosog i ddatblygu argymhellion a fyddai o fudd sylweddol i ddioddefwyr, goroeswyr a'u teuluoedd sy'n defnyddio gwasanaethau SARC ar draws y rhanbarth.

## ●●● Gwasanaethau i blant a phobl ifanc

Mae ymrwymiad i ddatblygu dau ganolbwynt SARC pediatrig (Abertawe a Chaerdydd) i ddarparu gwasanaethau aciwt ar draws rhanbarth de Cymru, gyda chefnogaeth barhaus yn cael ei ddarparu trwy'r lloerennau SARC lleol.

Ar hyn o bryd, mae gwasanaethau i blant a phobl ifanc yn cael eu ddarparu gan SARC Ynys Saff, Caerdydd yn ne Cymru a chan Amethyst yng ngogledd Cymru.

## ●●● Gogledd Cymru

Mae SARC Amethyst ym Mae Colwyn yn ddarparu cefnogaeth i ddioddefwyr ar draws gogledd Cymru. Er bod y model 'prif ganolfan a lloerennau' yn cael ei roi ar waith ar draws rhanbarthau de Cymru, mae Rhaglen GYRC wedi ymrwymo i ddatblygu gwasanaethau ymosodiadau rhywiol ar raddfa genedlaethol.

Mae cynrychiolwyr iechyd a heddlu o Ogledd Cymru yn rhan allweddol o'r Bwrdd Rhaglen a ffrydiau gwaith rhaglenni unigol.

## Beth yw 'prif ganolfannau' a 'lloerennau'?

### Prif ganolfan SARC

Cyfleuster pwrpasol i ddarparu gofal ar unwaith i ddioddefwyr.

Bydd hyn yn cynnwys cynnig archwiliad meddygol fforensig aciwt ac asesiad o anghenion iechyd, gyda llwybrau atgyfeirio ar waith i wasanaethau lleol i gefnogi gofal dilynol.

Bydd tair prif ganolfan oedolion wedi'u lleoli yn:

- Aberystwyth
- Caerdydd
- Abertawe

### Lloeren SARC

Cyfleuster a all ddarparu gofal uniongyrchol a pharhaus ond nad yw'n darparu archwiliadau meddygol fforensig.

Bydd y lloeren hefyd yn darparu cefnogaeth i ddioddefwyr sy'n cymryd rhan mewn achosion cyfiawnder troseddol, trwy gynghorwyr trais rhywiol annibynnol.

Bydd prif ganolfannau SARC hefyd yn gweithredu fel 'lloerennau' ar gyfer eu cymunedau lleol wrth ddarparu gofal a chymorth parhaus, gyda'r canolfannau canlynol ar gyfer pob rhanbarth:

- Gorllewin Cymru: Aberystwyth (PG a lloeren), Caerfyrddin a'r Drenewydd
- De-Ddwyrain Cymru: Caerdydd (PG a lloeren), Rhisga, Merthyr Tydfil
- De-Orllewin Cymru: Abertawe (PG a lloeren)

## UCHAFBWyNTIAU EIN GWEITHGAREDD PRESENNOL

Mae'n amser prysur i'r rhaglen gyda llawer o weithgarwch ar y gweill i gyflawni'r gwelliannau i wasanaethau ymosodiadau rhywiol yr ydym wedi bwriadu eu cyflawni. Dyma ychydig o uchafbwyntiau byr yn unig:

**Datblygu gwasanaethau 'lloeren'**

### Cwmsela a gwasanaethau therapiwtig

Gan weithio gyda Straen Trawmatig Cymru, byddwn yn adolygu gwasanaethau cwmsela trais, ymosodiad rhywiol a cham-drin yng Nghymru. Fel rhan o'r adolygiad byddwn yn edrych a chymorth therapiwtig drwy lens dull sy'n seiliedig ar drawma.

### Cynghorwyr annibynnol ar drais rhywiol (ISVAs)

Cynhaliwyd adolygiad o wasanaethau ISVA yn 2022. Mae grŵp gorchwyl a gorffen yn bwrw ymlaen â'r gwaith hwn a bydd yn datblygu ac yn costio model newydd o wasanaethau ISVA i'w darparu drwy loerennau SARC.

## Dulliau newydd o ymdrin â gwasanaethau archwilio meddygol fforensig

Mae Rhaglen GYRC yn goruchwyllo gwelliannau i ddarpariaeth archwiliadau meddygol fforensig (FME), gyda'r nod o fynd i'r afael â materion cynaliadwyedd, llywodraethu clinigol, ac ymgysylltu â gwasanaethau iechyd lleol.

## Bodloni achrediad ISO

Bydd yn rhaid i gyfleusterau archwilio meddygol fforensig SARC yng Nghymru fodloni safonau achredu ISO newydd.

Dan arweiniad yr heddlu yng Ngogledd a De Cymru, mae timau'n gweithio'n gyflym i gwrdd â'r terfynau amser penodedig, yn gwneud gwaith adeiladu, hyfforddi staff, a datblygu gweithdrefnau gweithredu safonol newydd. Diolch yn fawr i bawb sy'n ymwneud â'r gwaith hwn i sicrhau ein bod yn cyrraedd y safonau hynny ledled Cymru.

## Casglu data ledled Cymru

Rydym yn gweithio gyda darparwyr SARC, yr heddlu, ac iechyd i ddatblygu proses newydd ar gyfer casglu a dadansoddi data SARC.

Ein nod yw darparu darlun cenedlaethol o weithgarwch SARC, i sicrhau bod y galw presennol a'r galw yn y dyfodol yn cael ei fodloni, ac i nodi unrhyw faterion posibl a allai effeithio ar gyflawni'r model prif ganolfan a lloerennau newydd.

## Trosglwyddo gwasanaethau aciwt

Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddiweddarau cyfleusterau a recriwtio'r staff ychwanegol sydd eu hangen i gefnogi trosglwyddo gwasanaethau aciwt o Gaerfyrddin, y Drenewydd, Rhisga a Merthyr Tudful i Brif Ganolfannau SARC Caerdydd, Abertawe ac Aberystwyth.

## Datblygu'r gweithlu pediatrig

Mae hyfforddiant ychwanegol ac adolygiad gan gymheiriaid yn cael eu sefydlu i gefnogi staff pediatrig presennol sy'n ymgymryd ag archwiliadau meddygol SARC, ac i weithio tuag at weithlu mwy cynaliadwy yn y dyfodol .

'Mae gwaith yn parhau i gysylltu â ffrydiau gwaith eraill y Rhaglen i sicrhau bod plant yn cael eu gweld mewn amgylcheddau diogel, cyfeillgar i blant sy'n bodloni safonau fforensig, a bod eu lles a'u hôl-ofal yn ystyriaethau allweddol'

## Creu cysylltiadau

Mae Rhaglen GYRC yn creu cysylltiadau'n ddyfal ag ystod o wahanol wasanaethau, rhaglenni a sefydliadau ledled Cymru, megis rhwydweithiau ymchwil, Llywodraeth Cymru, Comisiynydd Plant Cymru, Straen Trawmatig Cymru, ac rydym hefyd yn cyfarfod yn rheolaidd â chydweithwyr o bob rhan o'r pedair gwlad.

# CYMERWCH RAN YN EIN GWAITH!



## Gweithwyr proffesiynol a sefydliadau

Rydym yn sefydlu Grŵp Ymgysylltu Gwasanaeth i ddod ag unigolion, gwasanaethau a sefydliadau sy'n gweithio gyda dioddefwyr a goroeswyr trais, ymosodiad rhywiol a chamdriniaeth ynghyd .

Bydd cyfleoedd i :

- derbyn diweddariadau ar Raglen GYRC
- cefnogi datblygiad gwasanaeth trwy ddarparu eich syniadau a'ch argymhellion
- rhoi adborth ar ein prosiectau a'n hadnoddau

## Goroeswyr, teuluoedd, a ffrindiau

Mae'n hanfodol bod gwasanaethau ymosodiadau rhywiol yng Nghymru yn cael eu llywio gan brofiadau dioddefwyr, goroeswyr, eu teuluoedd, a ffrindiau.

Rydym am ddarparu amrywiaeth o gyfleoedd i oroeswyr gymryd rhan - trwy weithdai personol neu ar-lein, adborth ysgrifenedig, neu drwy fynd allan i gwrdd â rhwydweithiau goroeswyr sydd eisoes yn bodoli.

**Cysylltwch â ni os gallwch chi neu eich sefydliad ein helpu i gysylltu â rhwydweithiau goroeswyr, neu os ydych yn oroeswr a hoffai gymryd rhan yn ein gwaith!**

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â : [WSAS.programme@wales.nhs.uk](mailto:WSAS.programme@wales.nhs.uk)

# CODI YMWYBYDDIAETH O GANOLFANNAU ATGYFEIRIO YMOSODIADAU RHYWIOL

Rhyddhawyd ffilm ac animeiddiad pwerus ym mis Mehefin, yn disgrifio'r gwasanaethau a'r cymorth a ddarperir gan ganolfannau atgyfeirio ymosodiadau rhywiol (SARCs) yng Nghymru.

**Diolch i GIG Lloegr, a roddodd ganiatâd inni addasu'r adnoddau hyn.**

## Gwylwch y fideo



## Gwylwch y animeiddiad



Rydym hefyd wedi bod yn hyrwyddo rhai negeseuon syml am SARCs trwy gyfryngau cymdeithasol - diolch yn fawr iawn i bawb sydd wedi cymryd rhan trwy bostio cynnwys neu ail-drydar ein postïadau.



Dilynwch ni [@WSAS\\_Programme](https://twitter.com/WSAS_Programme)

**Os gallwch ein helpu i godi ymwybyddiaeth o SARCs, cysylltwch am ragor o wybodaeth ac adnoddau ategol.**

[WSAS.programme@wales.nhs.uk](mailto:WSAS.programme@wales.nhs.uk)

Mae Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (CAYR) yn darparu lle diogel a gofal pwrpasol ar gyfer pobl sydd wedi cael eu treisio, wedi dioddef ymosodiad rhywiol neu wedi cael eu cam-drin yn rhywiol.

Ewch i

[cydweithrediad.gig.cymru/CAYR](https://cydweithrediad.gig.cymru/CAYR)  
i ddod o hyd i'ch canolfan agosaf



# DIGWYDDIADAU GYRC RHANNU DYSGU AC ARFER DA

## Digwyddiadau Dysgu Rhithwir

Fe wnaethom gynnal cyfres o ddigwyddiadau dysgu rhithwir llwyddiannus yn gynharach eleni, a gallwch wylïo'r pedair sesiwn ar - lein.

### Gwylïwch y digwyddiadau dysgu



Roedd gan y digwyddiadau dysgu ffocws gwahanol gan gynnwys plant a phobl ifanc, LHDTTC+ a chymunedau du, Asiaidd a lleiafrifol, pobl hÿn, ac archwiliadau meddygol ffforensig .

## Cynhadledd GYRC - 14 Mehefin 2022

Diolch yn fawr i bawb a fynychodd, gyflwynodd, neu gynhaliodd weithdai yn ein cynhadledd agoriadol.

Roeddem wrth ein bodd â'r adborth cadarnhaol a gafodd y digwyddiad

Roedd sesiwn y bore yn cynnwys negeseuon fideo a chyflwyniadau gan Jane Hutt, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol; Stephen Harrhy, Cadeirydd Rhaglen GYRC; Yasmin Khan, Cynghorydd Cenedlaethol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV); Eleri Thomas, Dirprwy Heddlu a Chomisiynydd Trosedd Gwent; a Sara Kirkpatrick, Prif Swyddog Gweithredol, Cymorth Merched Cymru.

## Rhoddwyd diolch arbennig i'r goroeswr a rannodd ei stori a'i phrofiadau personol gyda'r cynrychiolwyr.

Cynhaliwyd cyfres o weithdai yn y prynhawn, gan edrych ar archwiliadau meddygol ffforensig, ymatebion sy'n canolbwyntio ar drawma i blant a phobl ifanc, ac atal trais rhywiol ac aflonyddu.

### **Diolch i holl arweinwyr y gweithdy!**

Gallwch ddarganfod mwy am bwy a redodd y sesiynau hyn ar [dudalen](#)

## CYSYLLTWCH



[WSAS.programme@wales.nhs.uk](mailto:WSAS.programme@wales.nhs.uk)



Dilynwch ni ar Twitter: [@WSAS\\_Programme](https://twitter.com/WSAS_Programme)



Ewch i'n [Gwefan GYRC](#)